29 Mae'n rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

## Yr hyn a nodwyd gennym

30 Yn ein hadolygiad yn 2015-16 nodwyd gennym fod trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn a'i fod mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol.

31 Yn ein hadolygiad yn 2016-17 nodwyd gennym fod gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig glir sydd wedi'i phennu ar gyfer pedair blynedd tan 2019-20. Caiff ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru yn ôl yr angen, er mwyn ystyried newidiadau mewn newidynnau a thybiaethau allweddol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r diffyg posibl yn y gyllideb ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod o bedair blynedd. Mae'r Cyngor wedi llunio cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gwneud iawn am y diffyg hwn yn ystod 2016-17 a 2017-18. Bydd yn mireinio'r dull gweithredu hwn ymhellach er mwyn cau'r bwlch cyllido ar gyfer 2018-19 a 2019-20 wrth i'r sefyllfa ariannol ddod yn gliriach.

32 Er mwyn llywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae'r Cyngor yn amcangyfrif ymrwymiadau na ellir eu hosgoi dros y pedair blynedd nesaf, gan ystyried yr ystod lawn o bwysau ar wasanaethau o ran costau gan gynnwys: chwyddiant (tâl ac arall), newidiadau mewn yswiriant gwladol, pensiynau, llog, a demograffeg. Mae'r Cyngor wedi modelu tri senario o ran cymorth posibl gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ac wedi mabwysiadu dull ystyriol mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

33 Yn ystod 2015 cynhaliodd y Cyngor raglen ymgynghori gynhwysfawr, sef 'Her Gwynedd', a oedd yn ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar doriadau posibl i wasanaethau. Roedd ymgynghoriad Her Gwynedd yn effeithiol, gyda mwy na 2,100 o ymatebion. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y rhan fwyaf o elfennau arbedion cyn y broses o bennu'r gyllideb.

34 Mae gan y Cyngor tua £5.5 miliwn fel balans gweithredol yn ei gronfa gyffredinol wrth gefn. Mae gan y Cyngor bolisi ar gronfeydd wrth gefn a chaiff cronfeydd wrth gefn a darpariaethau eu hadolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr. Fel rhan o'r broses o bennu ei gyllideb ar gyfer 2016-17, cytunodd y Cyngor i ryddhau £871,000 o gronfeydd wrth gefn ac £1.14 miliwn arall yn dilyn adolygiad o ofynion o ran darpariaeth er mwyn cefnogi ei Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016-17. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo defnyddio'r £2.1 miliwn hwn fel 'pont' gyllido am iddo asesu na fyddai modd gweithredu'r holl doriadau sydd eu hangen yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

35 Mae trefniadau ffioedd a thaliadau ar waith sy'n nodi'r broses i'w dilyn wrth gynllunio cynnydd neu ddechrau codi tâl am wasanaethau.
Mae'n cydnabod bod gwahanol ddulliau gweithredu yn dibynnu ar b'un a yw'r gwasanaeth yn statudol neu'n ddewisol. Mae targedau incwm gwasanaethau wedi'u cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb. Mae gwybodaeth am ffioedd a thaliadau ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae dull y Cyngor o nodi cyfleoedd ar gyfer cynyddu incwm drwy godi tâl am wasanaethau yn anghyson.

